

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Cyhoeddus a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher 25 Medi 2019, yn y Ganolfan Gynadledda, Pencadlys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Ysbyty St Cadog, Caerllion

Yn bresennol:

Ann Lloyd	-	Cadeirydd
Judith Paget	-	Prif Weithredwr
Glyn Jones	-	Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad/Dirprwy Brif Weithredwr
Dr Paul Buss	-	Cyfarwyddwr Meddygol
Geraint Evans	-	Cyfarwyddwr y Gweithlu ac OD
Nick Wood	-	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl
Nicola Prygodzicz	-	Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG
Emrys Elias	-	Is-gadeirydd
Shelley Bosson	-	Aelod Annibynnol (Cymunedol)
Pippa Britton	-	Aelod Annibynnol (Cymunedol)
Katija Dew	-	Aelod Annibynnol (Trydydd Sector)
Louise Wright	-	Aelod Annibynnol (Undeb Llafur)
Dianne Watkins	-	Aelod Annibynnol (Prifysgol)
Philip Robson	-	Ymgynghorydd Arbennig i'r Bwrdd
Dr Sarah Aitken	-	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol
Peter Carr	-	Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Iechyd
Dave Street	-	Aelod Cyswllt Annibynnol (Awdurdod Lleol)
Keith Sutcliffe	-	Aelod Cyswllt Annibynnol (Cadeirydd y Grwp Cyfeirio Rhandeiliaid)
Frances Taylor	-	Aelod Annibynnol (Cymunedol)
David Jones	-	Aelod Annibynnol (TGCh)

Yn bresennol:

Richard Bevan	-	Ysgrifennydd y Bwrdd
Claire Birchall	-	Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Bryony Codd	-	Pennaeth Llywodraethiant Corfforaethol
Martine Price	-	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio
Mrs Lynne James	-	Claf
Mr James	-	Perthynas
Cath Blamire	-	Dirprwy Nyrs, Gofal Critigol
Sally Heal	-	Uwch Nyrs, Ysbyty Brenhinol Gwent
Debra Wood Lawson	-	Pennaeth y Staff

Ymddiheuriadau:

Rhiannon Jones	-	Cyfarwyddwr Nyrsio
Y Cynghorydd Richard Clark	-	Aelod Annibynnol (Llywodraeth Leol)

BIPAB 2509/01 Croeso, cyflwyniadau a chydabyddiaeth arbennig

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i bawb a oedd yn bresennol. Estynnodd y Cadeirydd groeso arbennig i Mr a Mrs James a fyddai'n adrodd stori'r claf.

BIPAB 2509/02 Datgan Buddiannau

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau eu nodi.

BIPAB 2509/03 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – 17 Gorffennaf 2019 a 21 Awst 2019

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd diwethaf ar 17 Gorffennaf 2019 a 21 Awst 2019 yn gofnod gwir a chywir yn amodol ar y newidiadau canlynol:

- Paragraff 2 BIPAB 1707/08 ar dudalen 4 i ddarllen ... 'pe bai hyn yn 'norm' newydd o ran y galw am wasanaethau **gofal brys**'

BIPAB 2509/04 Cofnod o Gamau Gweithredu

Derbyniodd y Bwrdd y cofnod o gamau gweithredu a nododd fod yr holl gamau naill ai ar y gweill, wedi'u hychwanegu at y flaenraglen waith neu wedi'u cwblhau.

Gofynnodd David Jones a oedd dyddiad 'mynd yn fyw' newydd ar gyfer WCCIS. Cadarnhaodd Nicola Prygodzicz fod amserlen ddangosol a bod swyddogion yn gweithio drwy ddiwydrwydd dyladwy ar hyn o bryd. Gobeithiwyd y byddai mwy o sicrwydd ynghylch dyddiadau ddiwedd mis Hydref. Roedd gwaith yn parhau gyda darparwr presennol y system iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Cytunwyd y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yn sesiwn frifio'r Bwrdd ar 23 Hydref 2019. **Cam gweithredu: N. Prygodzicz**

Cadarnhaodd Judith Paget i'r Rhaglen 111 fynd yn fyw ym mis Awst, gyda'r effaith yn parhau i gael ei monitro. Roedd yr arwyddion cynnar yn dangos dechrau cadarnhaol.

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau Annibynnol fod digwyddiad brifio arbennig wedi cael ei drefnu ar yr achos busnes trawma difrifol ar 23 Hydref yng Nghaerdydd ar gyfer Byrddau Iechyd De Cymru. Byddai Aelodau Annibynnol yn rhoi gwybod i'r Cadeirydd pe baent am fod yn bresennol. **Cam gweithredu: Aelodau Annibynnol**

BIPAB 2509/05 Materion Llywodraethu: Adroddiad ar Ddogfennau wedi'u Selio a Gweithredoedd y Cadeirydd

Cafodd y Bwrdd yr adroddiad a chadarnhaodd gamau a ymgwymerwyd gan y Cadeirydd mewn perthynas ag adnewyddu contract y Bwrdd Iechyd ar gyfer trwyddedu Microsoft ar gyfer gweinyddion.

Nid oedd unrhyw ddogfennau wedi'u selio yn y cyfnod adrodd diwethaf.

BIPAB 2509/06 Adroddiad y Cadeirydd

Rhoddodd y Cadeirydd adborth o gyfarfod y Cadeiryddion gyda'r Gweinidog yn gynharach yn yr wythnos, gan dynnu sylw at faterion a godwyd, gan gynnwys:

- Cyngor a gafwyd gan Lywodraeth y DU ynghylch treth a phensiynau.
- Perfformiad, yn enwedig ym maes gofal heb ei drefnu; hefyd y llwybr canser sengl a sefyllfa ariannol y Byrddau Iechyd.
- Mapio cynlluniau ymyrraeth y gwasanaeth ambiwlans.
- Tri chynllun EASC i'w cyflwyno ledled Cymru, sef Ymarferwyr Gofal Uwch, Newidiadau Trinwyr Galwadau a Chlywed a Thrin.
- Cymru Iach – Roedd y Gweinidog yn falch o weld cynnydd y Bwrdd Iechyd a chyhoeddiad 'Gwent Iachach'.
- Cynnig a ddatblygwyd gan HEIW mewn perthynas â datblygu arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Cytunwyd y byddai trosolwg o gamau gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn cael ei gyflwyno yn sesiwn frifio'r Bwrdd yn y dyfodol. **Cam gweithredu: G. Evans**

BIPAB 2509/07 Stori Claf: Yn gysylltiedig ag eitem 3.1 ar Ariannu'r Gwasanaeth Gofal Critigol

Croesawodd y Bwrdd Mrs Lynne James i'r cyfarfod i adrodd stori claf o ran ei phrofiad o wasanaethau gofal critigol yn y Bwrdd Iechyd.

Soniodd Mrs James am ei phrofiad o gael diagnosis a chael triniaeth am ganser. Ei sylwadau a'i phryderon oedd:

- y byddai wedi bod yn ddefnyddiol iddi hi a'i gŵr weld y seicolegydd tra roedd yn yr ysbyty i'w helpu i ddeall beth oedd yn digwydd ar y pryd.

- yr anhawster a gafodd wrth gael apwyntiad gyda'i meddyg teulu ar ôl cael ei rhyddhau.
- Roedd angen gwella'r cydgysylltu rhwng y CCU a'r wardiau.
- Byddai mynediad at gymorth therapi galwedigaethol/ffisiotherapi/therapi lleferydd yn werthfawr i oresgyn gwendid

Dywedodd Mrs James ei bod o'r farn ei bod bellach yn cael y cymorth yr oedd ei hangen arni i'w helpu i ddelio â materion a datrys problemau; byddai wedi bod yn fuddiol cael cymorth o'r fath tra roedd yn yr ysbyty.

Fodd bynnag, roedd yn ddiolchgar iawn am y gofal a'r sylw yr oedd wedi'u cael a oedd wedi ei galluogi i wella'n llwyddiannus.

Diolchodd Judith Paget i Mrs James, gan ddweud ei bod yn bwysig clywed straeon o'r fath a'r effaith y mae penderfyniadau'r Bwrdd yn ei chael ar gleifion a'u teuluoedd.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs a Mr James a staff yr Uned Gofal Critigol.

BIPAB 2509/08 Dyrannu Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Gofal Critigol

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ynglŷn â'r £15m a ddyrannwyd ledled Cymru gan Lywodraeth Cymru i wella gofal critigol. Cafodd y Bwrdd Iechyd £1.642m i ddatblygu capasiti a gweithlu gofal critigol. Nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio ei gynlluniau Dyfodol Clinigol i gyflwyno cynigion ar draws y pedair ffrwd waith; capasiti, gweithlu, allgymorth a PACU. Nododd y Bwrdd y defnydd arfaethedig o'r arian a ddyrannwyd.

Nodwyd nad oedd y dyraniad yn mynd i'r afael â'r Uned Gofal Anestheteg na'r cynnydd i naw gwely yn Ysbyty Athrofaol y Grange. Byddai'r materion hyn yn cael eu hystyried fel rhan o gynllunio Dyfodol Clinigol ehangach.

Dywedodd Pippa Britton fod gan y Bwrdd Iechyd y nifer isaf o welyau gofal critigol ar gyfer pob poblogaeth a gofynnodd sut y byddai'r nifer uwch o welyau yn cefnogi'r sefyllfa honno. Cadarnhawyd y byddai'r nifer uwch o welyau yn cefnogi hyn ond y byddai'r gymhareb gwely i bobl sydd yn yr ysbyty'n cael ei chadarnhau. **Cam gweithredu: N. Prygodzicz.**

Gofynnodd Dianne Watkins sut y cefnogwyd y broses ryddhau/mynediad at feddygon teulu. Eglurodd Nick Wood fod canolfan wedi'i sefydlu, fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau

Tosturiol, lle cysylltir â phob claf ar ôl cael ei ryddhau o'r ysbyty.

Cymeradwyodd y Bwrdd y dyraniad arfaethedig.

BIPAB 2509/09 Uned Sterileiddio a Diheintio Ysbytai (HSDU)

Derbyniodd y Bwrdd yr Achos Busnes Llawn drafft i gefnogi adeiladu HSDU newydd ger Ysbyty Athrofaol y Grange. Byddai'r HSDU yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn parhau i gefnogi Ysbyty Ystrad Fawr. Byddai'r uned yn Ysbyty Nevill Hall yn cau ac yn cael ei chefnogi gan yr uned yn Ysbyty Athrofaol y Grange. Cadarnhawyd bod canllawiau newydd wedi'u derbyn yn datgan bod angen i'r HSDUau fod ar bob safle lle'r oedd llawdriniaethau aciwt yn cael eu gwneud.

£15m oedd cost yr FBC, a oedd yn unol â'r OBC. Byddai costau refeniw yn gysylltiedig â'r gweithlu a thrafnidiaeth.

Cymeradwyodd y Bwrdd gyflwyno'r FBC i Lywodraeth Cymru.

BIPAB 2509/08 Gwasanaeth Ymosodiadau Rhywiol ar gyfer De, Canol a Gorllewin Cymru

Derbyniodd y Bwrdd yr argymhellion ar gyfer ailgyflunio Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) ledled De, Canol a Gorllewin Cymru. Arweiniwyd y gwaith gan Gydweithrediad GIG Cymru gyda'r model arfaethedig yn darparu model gwasanaeth mwy integredig, yn seiliedig ar ddull prif ganolfan a lloerennau:

- Mae tair chanolfan i oedolion yng Nghaerdydd, Abertawe ac Aberystwyth
- Mae dwy ganolfan bediatrig yng Nghaerdydd ac Abertawe.
- Mae pedair lloeren ychwanegol yn Rhisga, Merthyr Tudful, y Drenewydd a Chaerfyrddin.

Nododd Frances Taylor na fyddai paediatregydd ac arholwr meddygol fforensig yn archwilio pobl 16/17 oed a gofynnodd beth oedd y sail resymegol i dros hyn. Cafwyd sicrwydd gan Claire Birchall fod arbenigwyr wedi bod yn edrych ar y gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd ac y byddid yn ceisio asesiad pellach fel rhan o'r broses o gwblhau'r cynnig.

Gofynnodd Katija Dew a oedd gwasanaethau lleol yn gysylltiedig. Cadarnhaodd Claire Birchall y byddai gwasanaethau lleol yn rhan o'r model prif ganolfan a lloeren a byddai'r tîm lleol yn darparu gofal cofleididol a chymorth parhaus.

Cefnogodd y Bwrdd y cynigion ar gyfer y model SARC rhanbarthol. Cytunwyd y byddai adroddiad diweddarau yn cael ei ddarparu mewn blwyddyn. **Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

BIPAB 2509/11 Gofal yn Agosach at y Cartref - Dull Cydweithredol

Cafodd y Bwrdd drosolwg o'r cynnydd yn ymwneud â chydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu mwy o ofal yn agosach at y cartref. Cafodd y Bwrdd sicrwydd ar y cynnydd a wnaed gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent o ran defnyddio grantiau ariannu a ddyrannwyd i gyflawni amcanion 'Cymru iachach', gan gynnwys:

- Datblygu Rhwydweithiau Lles Integredig;
- Creu Academi Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- Diwygio Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed;
- Datblygu gwasanaeth rhyddhau integredig Gartref Gyntaf;
- Creu 'Cymunedau Tosturiol'.

Gofynnodd Shelley Bosson a fyddai'r cynnydd a wnaed gan NCNau yn cael ei werthuso a chadarnhawyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Hydref. Byddai trosolwg o bob un o'r pum Cynllun Awdurdod Lleol yn cael ei gyflwyno yn sesiwn friffio'r Bwrdd. **Cam gweithredu: N. Wood**

Holodd Shelley Bosson am y cyfeiriad at gyfleusterau cam i fyny/camu i lawr cynaliadwy a chadarnhaodd Nick Wood fod yr holl bartneriaid yn glir ynghylch yr angen i gydweithio gyda darparwyr i sicrhau cynaliadwyedd ar draws y farchnad. Roedd gwaith wedi'i wneud gan y Grŵp Comisiynu i ddatblygu contractau a thelerau cyffredin, i gydbwysu lleoliadau preswyl a nyrsio a gweithio gyda darparwyr ar sut i adeiladu'r farchnad.

Nodwyd mai'r Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol oedd yn gyfrifol am oruchwylio cynllun y gaeaf. Cadarnhawyd y byddai un cynllun gaeaf gyda dwy ffynhonnell ariannu, un ar gyfer y BPRh ac un ar gyfer y Bwrdd Iechyd ar gyfer rhan gwasanaeth ysbytai aciwt cynllun y gaeaf.

Gofynnodd Dianne Watkins am wybodaeth am ddulliau gwerthuso ar gyfer yr hyn a oedd yn set gymhleth o ymyriadau. Cadarnhaodd Sarah Aitken fod methodoleg werthuso gadarn iawn ar gyfer y GGC yn seiliedig ar fethodoleg gwella ansawdd. Roedd angen datblygu mesurau yn ymwneud

â systemau yn hytrach na phrojectau unigol er mwyn gwerthuso effaith y gronfa drawsnewidiol.

Gofynnodd David Jones a fyddai arwyddion cynnar pe na bai'r projectau 'ar y trywydd iawn'. Cadarnhawyd bod mesurau proses clir ar gyfer pob rhan o'r system ac roedd eisoes yn amlwg a oedd y broses o werthuso rhannau unigol ar y trywydd iawn.

Cadarnhawyd bod cyllid yn cael ei neilltuo yn y gronfa drawsnewid ar gyfer gwerthuso a bod y tîm a oedd yn cefnogi ac yn gwerthuso'r GGC wedi cael cyfran o'r arian cychwynnol.

Gofynnodd Louise Wright a oedd hyder y byddai'r gweithlu ar gael. Dywedodd Nick Wood fod cynnydd wedi'i wneud o ran modelau gweithlu ar gyfer timau amlddisgyblaethol ac ati, ond bod prinder staff cymwysedig o hyd, ac roedd hwn yn fater cenedlaethol. Roedd academiâu gweithlu ar waith ac roeddent yn dechrau gweithio, gyda 6 nyrs wedi'u recriwtio i swyddi parhaol mewn practisau meddygon teulu.

Dywedodd Pippa Britton fod angen cyfeirio'r system i'r man cywir ar yr adeg gywir a gofynnodd a oedd pob meddyg teulu yn gwbl gyfarwydd â'r model newydd.

Nododd Paul Buss y byddai llwyddiant yn digwydd pan fyddai cleifion yn cael eu hatgyfeirio i'r lle cywir ar yr adeg gywir gyda chyfathrebu ar waith rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol. Cadarnhaodd Nick Wood fod cymunedau tosturiol gyda chysylltwyr cymunedol yn ganolog i'r dull hwn.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

BIPAB 2509/12 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cyngori

Nododd y Bwrdd yr adroddiad gan is-bwyllgorau'r Bwrdd a thynnwyd sylw at y meysydd allweddol canlynol:

Pwyllgor Archwilio – Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch gradd sicrwydd cyfyngedig yr adroddiad Archwiliad Mewnol ar Staffio Meddygol a'r posibilrwydd o dorri cap Llywodraeth Cymru.

Pwyllgor Partneriaethau Cyhoeddus a Lles – Dywedodd y Pwyllgor fod sesiwn friffio'r Bwrdd ar lywodraethu ac atebolrwydd ffrydiau ariannu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod yn fuddiol.

BIPAB 2509/13 Adroddiad y Tîm Gweithredol

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad y Tîm Gweithredol a nododd ddiweddariadau yn y meysydd canlynol:

Digwyddiad i Uwch Arweinwyr: Cynhaliwyd digwyddiad ar 26 Medi i ymgysylltu ag uwch arweinwyr ynghylch 'Adeiladu Gwent Iachach'.

Cysgodi: Mae aelodau o'r Tîm Gweithredol yn cynnal ymweliadau Cysgodi ar draws y sefydliad, ond mae neges bellach wedi ei hanfon gan y Tîm Gweithredol i'r sefydliad wahodd staff i'w cysgodi am ddiwrnod.

Lansio ymgyrch i 'Adeiladu Gwent Iachach': Roedd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol wedi lansio sgwrs gyda'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr systemau ynghylch Adeiladu Gwent iachach.

Ymweliadau Gweinidogol: Roedd Vaughan Gething AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi ymweld ddwywaith ag ardal y Bwrdd Iechyd. Y cyntaf â'r adran Gastroenteroleg yn Ysbyty Brenhinol Gwent a'r ail â Meddygfa Bryntirion.

Gwobrau: Roedd staff y Bwrdd Iechyd yn llwyddiannus mewn saith categori yng Ngwobrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol y South Wales Argus. Hefyd, bu nifer o enillwyr a rhai ddaeth yn ail yn Nigwyddiad Dathlu Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Caerdydd.

BIPAB 2509/14 Adroddiad Perfformiad Integredig

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad ar berfformiad ar gyfer diwedd Gorffennaf 2019. Nododd y Bwrdd fod y sefyllfa o ran RTT yn gwaethygu. Amlygwyd y meysydd risg uchel fel offthalmoleg ac orthopedeg.

Roedd offthalmoleg yn llywio rhywfaint o'r cynnydd yn nifer y cleifion a oedd yn aros dros 36 wythnos. Dechreuodd contract dwy flynedd gyda Care UK ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, roedd materion staffio wedi golygu nad oeddent yn gallu trin y nifer disgwylidig o gleifion yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst. Disgwylid i'r sefyllfa hon wella yn y trydydd chwarter. Cadarnhaodd Claire Birchall fod model galw/capaciti cadarn yn y cynllun offthalmoleg ond roedd pryderon mewn rhai is-arbenigeddau.

Gofynnodd Shelley Bosson a fyddai cosb i'r darparwr pe na bai'n gallu darparu'r gwasanaeth. Cadarnhawyd bod y contract yn ei le ers dros flwyddyn ac y byddai capaciti ychwanegol yn cael ei gynnal yn ystod y trydydd chwarter i wella'r sefyllfa.

Roedd orthopedeg yn parhau i fod yn risg ac wedi cael ei effeithio gan bensiynau a materion treth a'r gallu i greu

capasiti'n lleol. Roedd hyn yn risg allweddol oherwydd amserlenni ac roedd gwaith yn parhau i edrych ar nifer o opsiynau. Gofynnodd Shelley Bosson a oedd darparwyr allanol yn cael eu hystyried. Cadarnhawyd bod hyn yn cael ei ystyried ar ddechrau'r flwyddyn ond nid oedd unrhyw ddarparwyr y GIG o fewn pellter addas, yn enwedig ar gyfer yr is-arbenigeddau sy'n ofynnol. Y brif broblem o fewn orthopedeg oedd cleifion cymhleth na ellir eu gweld ond yn Ysbyty Brenhinol Gwent.

O ran perfformiad gofal heb ei drefnu, nodwyd nad oedd perfformiad ar y lefel ofynnol. Roedd cynlluniau'n cael eu datblygu a byddent yn cael eu profi cyn cyfnod y gaeaf. Esboniodd Claire Birchall y bu cynnydd sylweddol yn nifer y presenoldebau yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst ac mae cymhlethdod a aciwtedd y rhai sy'n bresennol yn peri pryder. Roedd cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal, ac roedd profion wedi'u cynnal ar gyfer nifer o gynlluniau, gan gynnwys cymorth brysbennu ychwanegol a swyddog cyswllt ysbytai/symudol. Bu'r adborth cychwynnol gan staff a chleifion ar yr adran gofal symudol yn gadarnhaol.

Tynnodd Judith Paget sylw at bwysigrwydd yr angen i fod yn drawsnewidiol a nodwyd bod arolwg wedi'i gynnal yn yr adran Achosion Brys i ofyn i gleifion pam eu bod yn dewis mynychu yr adran honno a pha lwybrau amgen oedd ar gael. Arolygwyd 1164 o gleifion dros gyfnod o ddwy wythnos; o'r rheiny roedd tua 900 yn gweld yr yr adran Achosion Brys fel eu dewis cyntaf ond yn cydnabod y dylai fod wedi bod yn ofal sylfaenol. O'r cleifion hyn, roedd tua 400 yn fân anafiadau/salwch ac roedd 350 yn addas ar gyfer ymarfer cyffredinol. O 14 Hydref, am gyfnod o 12 diwrnod, byddai gwasanaeth gofal sylfaenol yn cael ei dreialu yn yr uned mân anafiadau yn Ysbyty Brenhinol Gwent gyda meddyg teulu profiadol. Byddai hyn yn cynnwys brysbennu gofal sylfaenol/achosion brys.

Nododd Pippa Britton fod hyn yn gyfle i addysgu pe bai unigolion yn cyflwyno eu hunain yn rheolaidd yn yr adran Achosion Brys gan eu bod yn credu nad oeddent yn gallu gweld eu meddyg teulu. Roedd yn bwysig sicrhau, wrth eu trin, eu bod yn cael eu hysbysu o'r lle mwyaf priodol i geisio cymorth. Cytunwyd ei bod hefyd yn bwysig addysgu pobl nad ydynt eto'n defnyddio'r gwasanaethau. Dywedodd Sarah Aitken fod mecanweithiau ar waith i ledaenu negeseuon, ond yr allwedd oedd y neges oedd ei hangen i newid ymddygiad. Cadarnhaodd Richard Bevan fod y Tîm Cyfathrebu yn ymgysylltu'n feunyddiol ag ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol.

Dywedodd David Street fod pwysau tebyg mewn gwasanaethau yn y gymuned, gyda rhestri aros yn eu lle ar

gyfer asesiadau gweithwyr cymdeithasol yn eu cartrefi eu hunain am y tro cyntaf. Roedd y pwysau hyn ar y system gyfan.

O ran apwyntiadau dilynol, esboniodd Claire Birchall fod mesurau newydd wedi'u sefydlu yn ymwneud ag apwyntiadau dilynol. Cytunwyd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol, i gynnwys adborth gan y Tîm Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth. **Cam gweithredu: C. Birchall**

BIPAB 2509/15 Adroddiad Cyllid

Nododd y Bwrdd y sefyllfa ariannol ar ddiwedd mis 5. Y sefyllfa ariannol ar gyfer y flwyddyn hyd yma oedd diffyg o £2.314 m. Roedd hyn yn dangos bod y sefyllfa o £400k wedi dirywio o ganlyniad i gostau'r gweithlu a mwy o ddefnydd ar asiantaethau oherwydd y galw cynyddol yn y system gofal heb ei drefnu. Y meysydd i wario mwy ynddynt oedd sicrhau diogelwch gwasanaethau a bwrw targedau perfformiad.

Eglurodd Glyn Jones fod mwy o ffocws ar feysydd lle gellid gwneud mwy o arbedion, gan ganolbwyntio'n benodol ar 11 maes, a fyddai'n cael eu trafod gan y Tîm Gweithredol ar 30 Medi.

Roedd y £4m o gyllid perfformiad a'r £0.5m ar gyfer apwyntiadau dilynol gan Lywodraeth Cymru yn amodol ar fwrw targedau perfformiad.

Mewn ymateb i ymholiad gan Katija Dew, eglurodd Glyn Jones fod arferion a reolwyd yn ddrutach gan fod buddsoddiadau'n cael eu gwneud yn y gweithlu, ond yn y tymor hwy, dylai hyn arwain at weithlu mwy cynaliadwy ac ni ddylai'r costau premiwm fod yn rhai rheolaidd.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

BIPAB 2509/16 Dangosfwrdd Risgiau

Nododd y Bwrdd adroddiad y Dangosfwrdd Risgiau ac roedd yn cydnabod bod y risg o fethu â chyflawni balans ariannol ar ddiwedd 2019/20 wedi cynyddu o 12 i 16 i gydnabod y proffil yn erbyn y cynllun.

Cytunwyd bod y risgiau mwyaf wedi'u trafod drwy gydol y cyfarfod. Cadarnhaodd Richard Bevan y byddai'r awydd risg yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf. **Cam gweithredu: R. Bevan**

BIPAB 2509/17 Diweddariad ar y Rhaglen Dyfodol Clinigol

Nododd y Bwrdd yr adroddiad diweddarau mewn perthynas â'r Rhaglen Dyfodol Clinigol. Tynnwyd sylw at y prif gyflawniadau yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf yn ogystal â'r risgiau allweddol i'w cyflawni.

Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi statws ambr y project. Aseswyd bod y ffrwd waith trawsnewid gwasanaethau yn goch oherwydd oedi wrth recriwtio, ond gwnaed cynnydd yn ystod mis Awst. Roedd fforwm i uwch arweinwyr clinigol wedi'i gynnal yn gynharach yn yr wythnos i brofi modelau a meysydd ffocws.

Cydnabu'r Bwrdd y prif risgiau yn ymwneud â thrafnidiaeth, pontio, recriwtio a llif cleifion.

Gofynnodd Frances Taylor a oedd gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu'n cynnwys ymgysylltu â llwybrau clinigol a chyfluniad gwasanaethau. Dywedodd Nicola Prygodzicz fod hyn yn amrywio yn ôl gwasanaeth, gyda grwpiau cyfeirio cleifion da mewn rhai ardaloedd. Cadarnhaodd Martine Price fod tîm sy'n canolbwyntio ar y claf bellach wedi'i sefydlu, ond ei bod yn bwysig sicrhau bod cleifion a gofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon. Cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol. **Cam gweithredu: M. Price**

Gofynnodd Frances Taylor am ragor o wybodaeth ynghylch seilwaith a thrafnidiaeth i Ysbyty Athrofaol y Grange a safleoedd eraill wrth ad-drefnu gwasanaethau. Esboniodd Debra Wood-Lawson fod gwaith yn mynd rhagddo i fapio'r trefniadau presennol a bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda darparwyr a gyda phartneriaid G10 ynghylch dull gweithredu ar sail ranbarthol.

Gofynnodd Pippa Britton am ragor o fanylion am y gostyngiadau arfaethedig i welyau. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor Cynllunio a Newid Strategol yn trafod hyn ymhellach.

BIPAB 2509/18 Diweddariad ar BREXIT

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i baratoi'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y DU yn gadael yr UE ar 31 Hydref 2019. Esboniodd Debra Wood-Lawson fod grŵp pontio'r UE wedi cael ei sefydlu, gyda phartneriaid Awdurdod Lleol, a bod y gwaith paratoi a wnaed cyn 31 Mawrth 2019 dal ar waith.

Nodwyd bod risgiau allweddol, ar draws y GIG, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gysylltiedig â'r gweithlu, caffael,

TG, technoleg y gadwyn gyflenwi a meddyginiaethau. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod trefniadau lleol ar waith i ddiogelu rhag effaith.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y broses statws sefydlog a'r cymorth a roddir i unigolion a rheolwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r broses a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud. Cadarnhawyd y byddai'r cyfathrebu ynghylch hyn yn cael ei adnewyddu ac y byddai cymorth yn cael ei roi i'r rhai sy'n gwneud cais dan y cynllun.

BIPAB 2509/19 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cytunwyd i gynnal cyfarfod nesaf y Bwrdd Cyhoeddus ddydd Mercher 27^{fed} Tachwedd 2019.